

TELERAU AC AMODAU DRAGON RIDER CYMRU

A. NOD Y CWRS

Drwy gwblhau cwrs Dragon Rider Cymru, bydd yr ymgeisydd yn cael cyfle i ehangu ei (g)wybodaeth ddamcaniaethol a gwella ei sgiliau beic modur corfforol ar y ffordd.

B. TROSOLWG AR Y GWASANAETH

Sesiwn theori o dair awr mewn grŵp ar y cyd ag ymgeiswyr eraill.

Hyfforddiant dau-i-un neu un-i-un rhwng ymgeiswyr/hyfforddwr ar y ffordd am saith awr yn unol â'r polisi canslo.

Mae'r cwrs ar gael yn rhad ac am ddim i'r ymgeisydd (cymhorthdal o tua £95 gan yr awdurdod lleol) ac mae'n destun ffioedd canslo, fel y nodir yn y telerau hyn.

Yr amodau sy'n berthnasol er mwyn cael cymhorthdal gan yr awdurdod lleol:

Ymateb i holiaduron

Cytuno i archwiliadau trwydded gan y DVLA

Bod eich beic modur yn cyrraedd y safon ofynnol (MOT)

Rhaid bod gennych Yswiriant priodol ar gyfer Beic Modur

C. DIFFINIADAU

Mae cwrs Dragon Rider Cymru yn gynllun hyfforddiant ar ôl prawf sydd wedi'i anelu at feicwyr sydd wedi llwyddo yn eu prawf yn ddiweddar, beicwyr sydd wedi dychwelyd i feicio yn ddiweddar ar ôl egwyl, beicwyr sy'n symud ymlaen i feic modur mwy pwerus, a beicwyr sydd eisiau cael asesiad o'u gallu o ran beicio, ac mae wedi'i gynllunio i ddatblygu sgiliau beic modur damcaniaethol ac ymarferol.

CH. ARCHEBU LLE

Gall ymgeiswyr wneud ymholiadau ac archebu lle ar y cyrsiau ar-lein, drwy'r wefan www.sirgar.llyw.cymru/beiciomodur, drwy ffonio 01267 228285, neu drwy e-bostio diogelwchffyrdd@sirgar.gov.uk.

D. FFORWM TRAFOD

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd fynychu fforwm trafod mewn lleoliad a bennir, lle rhoddir cyflwyniad rhyngweithiol a fydd yn para tair awr.

DD. SESIWN AR Y FFORDD

Yn dilyn y sesiwn theori, bydd yr ymgeisydd yn cael ei baru/pharu ag ymgeisydd arall ar gyfer y sesiwn hyfforddiant ar y ffordd.

Y Telerau a'r Amodau

1. CYFRINACHEDD

1.1 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) yn ymrwmo i gadw gwybodaeth yn gwbl gyfrinachol ac ni fydd yn ei datgelu i unrhyw drydydd parti heb gael caniatâd ysgrifenedig gan yr ymgeisydd ymlaen llaw.

1.2 Ni fydd unrhyw beth yn y telerau a'r amodau hyn yn atal CSC rhag datgelu gwybodaeth gyfrinachol lle gofynnir iddo wneud hynny gan broses farnwrol, weinyddol, lywodraethol neu reoleiddiol, mewn cysylltiad ag unrhyw achosion, hawliadau, neu fel arall, dan y gyfraith berthnasol.

1.3 Mae'r ymgeisydd yn rhoi caniatâd i CSC gadw a phrosesu data sy'n ymwneud â Dragon Rider Cymru gydag unrhyw awdurdodau rheoleiddio, sefydliadau'r llywodraeth a'r DVLA.

2. Y GOFYNIION CYFREITHIOL O RAN HYFFORDDIANT AR Y FFORDD

2.1 Mae'n rhaid i bob ymgeisydd sy'n dymuno cael hyfforddiant i yrwyr ar ffyrdd cyhoeddus feddu ar drwydded yrru gyfredol sy'n cynnwys y grŵp cerbydau priodol ac ni ddylai fod wedi'i (g)wahardd rhag meddu ar drwydded o'r fath. Felly, mae'n ofynnol i'r ymgeisydd roi gwybod i CSC os bydd y sefyllfa yn newid ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs.

2.2 Bydd yr hyfforddwr yn archwilio'r trwyddedau gyrru cyn y bydd pob cwrs hyfforddiant ar y ffordd yn dechrau. Ni fydd ymgeiswyr nad ydynt yn dangos trwydded yrru ddilys yn derbyn hyfforddiant ar y diwrnod hwnnw ac, oni bai y deuir o hyd i ymgeisydd i gymryd eu lle o fewn cyfnod rhesymol ar y diwrnod hwnnw, bydd y polisi canslo yn berthnasol.

2.3 Rhaid ichi ddarparu eich cerbyd eich hun ar gyfer elfen ymarferol Dragon Rider Cymru ar y ffordd. Bydd yr hyfforddwr yn archwilio eich tystysgrifau MOT ac yswiriant cyn y bydd pob cwrs hyfforddiant ar y ffordd yn dechrau. Hefyd, bydd yr hyfforddwr yn archwilio'r cerbydau.

3. YSWIRIANT

3.1 Bydd yr hyfforddwr yn meddu ar yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus gyda therfyn indemnio o £5 miliwn.

3.2 Hefyd, bydd gan yr hyfforddwr yswiriant Indemniad Proffesiynol gyda therfyn indemnio o £3 miliwn. Gellir gofyn am gael gweld copi o'r naill dystysgrif neu'r llall gan CSC.

4. TALU

4.1 Cynigir lle ar y cwrs i'r ymgeisydd yn rhad ac am ddim. Ceir cymhorthdal gan CSC i dalu'r gost lawn, sef tua £95, a fydd yn amodol ar yr ymgeisydd yn bodloni'r amodau perthnasol, fel y nodir yn y telerau hyn.

5. Y POLISI CANSLO

5.1 Bydd ymgeisydd sy'n methu â dod i'r sesiwn theori yn cael cyfle i fynychu cwrs yn ddiweddarach os bydd yn talu ffi ail-archebu o £10. Bydd ymgeisydd sy'n mynychu'r sesiwn theori ond sy'n methu â mynychu ar ddiwrnod y sesiwn ar y ffordd yn cael cyfle i fynychu'r sesiwn ar y ffordd eto os bydd yn talu ffi ail-archebu o £10. Os bydd yr ymgeisydd yn canslo lai na 24 awr cyn dechrau'r cwrs ar y ffordd a drefnwyd ymlaen llaw, bydd ffi ganslo o £30 a ffi ail-archebu o £10 yn berthnasol.

5.2 Caniateir methu â dod i'r naill sesiwn neu'r llall unwaith yn unig. Wedi hynny, bydd yr ymgeisydd yn talu'r ffi gymorthdaledig o £95 i fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael. Os bydd un ymgeisydd yn methu â dod i'r sesiwn ar y ffordd, bydd yr hyfforddiant yn parhau ar sail un-i-un.

6. HYD Y CYTUNDEB A THERFYNU'R CYTUNDEB

6.1 Bydd yr ymgeisydd yn cytuno y gall CSC wneud ymholiadau gyda'r DVLA ynghylch categorïau a chyfredolrwydd trwydded yrru'r ymgeisydd, a'r manylion ynghylch torri rheolau'r ffordd fawr sydd wedi'u cofnodi arni.

7. ADRODDIAD CYFRANOGI

7.1 Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystysgrif a fydd yn caniatáu gostyngiadau ar yswiriant, fel yr amlinellir yng Nghynllun Gwell Beiciwr yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau.

8. MANYLION CYSWLLT/Y BROSES ARCHEBU LLE

8.1 Mae'r rhif ffôn 01267 228285 ar gael i ymgeiswyr wneud ymholiadau ac archebu lle yn unig. Hefyd, bydd ymgeiswyr yn gallu archebu lle ar-lein, drwy'r wefan www.sirgar.llyw.cymru/beiciomodur.

9. ADBORTH

9.1 Bydd pob ymgeisydd yn cael cyfle i lenwi ffurflen adborth mewn perthynas â'r cwrs. Bydd y ffurflen adborth hon yn cynnwys cwestiynau ynghylch y gwasanaeth a ddarparwyd gan bob hyfforddwr. Bydd yr adborth hwn yn cael ei gofnodi a'i ddefnyddio i fesur effaith y prosiect a pherfformiad pob hyfforddwr. Bydd pob hyfforddwr yn cael adborth ynghylch ei berfformiad yn rheolaidd.

10. DARPARU'R HYFFORDDIANT

10.1 Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu fel y nodir yn nodiadau cyfarwyddyd Cynllun Gwell Beiciwr yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau a gofynion CSC i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu'r hyfforddiant. I'r perwyl hwn, disgwylir i bob hyfforddwr roi arddangosiad beicio i'r ymgeiswyr, sy'n cynnwys sylwebaeth.

11. RHEOLI ANSAWDD

11.1 Bydd CSC yn cynnal archwiliadau gyda phob hyfforddwr yn rheolaidd i sicrhau bod yr hyfforddiant a roddir, cynnwys y cwrs, a'r arddangosiad beicio a'r sylwebaeth, yn cyrraedd y safon a ddisgwylir gan hyfforddwyr Dragon Rider Cymru. Dylid rhoi gwybod i CSC am unrhyw broblemau neu gwynion ynghylch hyfforddwr sy'n cymryd rhan o fewn dau ddiwrnod i gwblhau'r cwrs.

12. CYFYNGIADAU AR ATEBOLRWYDD

12.1 Bydd terfyn ar atebolrwydd CSC mewn perthynas ag unrhyw a phob hawliad (boed dan gyfraith contract, cyfraith camwedd, neu fel arall) sy'n deillio o'r Cytundeb hwn, neu mewn cysylltiad ag ef, sef £5 miliwn mewn perthynas ag atebolrwydd trydydd parti a £3 miliwn mewn perthynas ag atebolrwydd proffesiynol.

12.2 Heb ystyried unrhyw beth arall a gynhwysir yn y Cytundeb hwn, ni fydd y naill barti yn atebol i'r llall, dan unrhyw amgylchiadau, am y canlynol:

12.2.1 colli elw, busnes, ewyllys da, refeniw neu gynilion disgwylidig;

12.2.2 colled neu ddifrod arbennig, anuniongyrchol neu ganlyniadol; a

12.2.3 cholled neu ddifrod i ddata neu wybodaeth, ni waeth sut yr achoswyd hynny (ac eithrio yn achos twyll).

13. HYSBYSIADAU

13.1 Bydd unrhyw hysbysiad sydd i'w roi dan unrhyw Gytundeb yn cael ei ddanfon yn bersonol neu'i anfon drwy'r post cofnodedig dosbarth cyntaf (post awyr os yw'n cael ei anfon dramor), neu bost electronig, neu wasanaeth telegram neu wasanaeth negeseua arbennig cyfradd lawn (e.e. Airborne, Federal Express). Y cyfeiriad ar gyfer gwasanaethau pob parti fydd ei swyddfa gofrestredig, neu gyfeiriad tebyg arall y gall y naill barti fod wedi rhoi gwybod i'r llall amdano yn ysgrifenedig gynt.

14. Y GYFRAITH

14.1 Mae'r ymgeisydd yn ymostwng i awdurdodaeth anghyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr ac yn cytuno y bydd unrhyw Gytundeb yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr.

15. DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

15.1 Mae pob parti yn cytuno, wrth roi gwybodaeth i'r llall dan delerau unrhyw Gytundeb, nad yw ac na fydd yn mynd yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r holl is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Ddeddf honno.

Dragon Rider Cymru – Y Telerau a'r Amodau i Ymgeiswyr

Rwyf wedi darllen a deall ac rwyf yn cytuno i gydymffurfio â'r telerau a'r amodau, fel y nodir yn y Telerau a'r Amodau i Ymgeiswyr Dragon Rider Cymru.

DS: Ni fydd cyrsiau yn cael eu neilltuo i unrhyw ymgeisydd hyd nes y bydd copi wedi'i lofnodi o'r telerau a'r amodau hyn wedi'i dderbyn a'i wirio gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Enw (printio mewn llythrennau bras)	
Cyfeiriad (printio mewn llythrennau bras)	
Rhif cyswllt (yn ystod y dydd)	
Cyfeiriad e-bost	

Llofnod

Dyddiad
